# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig.  Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da.  Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cronfa Effaith Balchder Bro |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid?  Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Ar 25ain o Fedi 2025 bu i'r Cyngor dderbyn llythyr ar y cyd rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cyngor a'r Ysgrifenydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cadarnhau dyraniad o £1.5m i Gyngor Gwynedd drwy Gronfa Effaith Balchder Bro (£750k yn 2025/6 a £750k yn 2026/7). |

Yn sgil gwaith scopio, mae'r Adran Economi a Chymuned wedi llunio pecyn o brosiectau arfaethedig ar gyfer dyrannu yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r pecyn arfaethedig yn cynnwys dyraniad o'r Gronfa ar gyfer y gweithgareddau / prosiectau canlynol :

- **Cronfa Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned** – sydd yn adeiladu ar gynllun arbrofol eleni gan sefydlu cronfa ar cynghorau lleol gan ledaenu'r budd i bob ardal o Wynedd, gan gefnogi gwelliannau ar lefel lleol iawn sy'n ymateb i anghenion lleol
- **Cynllun Is-adeiledd a llwybrau trefol** – ar gyfer gwella cyflwr llwybrau a chysylltiadau trefol r draws y Sir (mae cynigion manwl yn cael eu baratoi ar hyn o bryd)
- **Rhaglen Adfywio Canol Dinas Bangor** – sydd wedi ei adnabod fel blaenoriaeth strategol yn sgil newidiadau a heriau yn wynebu ardal y Stryd Fawr. Mae'r cynigion yn cynnwys pecyn gwella eiddo Stryd Fawr, gwelliannau stryd Ffordd y Coleg a gweithredu gwelliannau ger Ffordd Deiniol er mwyn gwella edrychiad yr ardal a chryfhau cysylltiadau trefol
- **Cynlluniau Gwella Canol Trefi** – yn cynnwys pecyn gwella eiddo a chynllun arwyddo a dehongli fel rhan o Gynllun Gwella Canol Tref Pwllheli; ail-wynebu Sgwâr Eldon yn Nolgellau; a gwelliannau toiledau cyhoeddus yn Abermaw
- **Gwelliannau Llyfrgelloedd** – yn cynnwys cynlluniau i drawsnewid llyfrgell Caernarfon ac uwchraddio llyfrgell ym Mlaenau Ffestiniog gan wella cyfleusterau sydd ar gynnig yn yr adnoddau cymunedol pwysig yma
- Cynlluniau wrth gefn – mae'r cynigion hefyd yn cynnwys cynlluniau wrth gefn, pe byddai tanwariant neu cyfle arall yn codi.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Llyr B. Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Ionawr 2026 – Fersiwn 0.1

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Swyddogion Cyngor Gwynedd
Aelodau Etholedig
Cynghorau Cymuned a Thref

Grwpiau Adfywio Lleol
Defnyddwyr

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Nid oes gwaith ymgysylltu ar y Gronfa Effaith Balchder Bro wedi ei gynnal hyd yma.

Mae'r Adran Economi wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer cefnogi prosiectau cyfalaf drwy ddyrannu arian o'r Gronfa Effaith Balchder Bro.

Bydd Asesiad Cydraddoldeb yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun yn unigol, gan gynnwys trefniadau ymgysylltu priodol.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Rhagwelir y bydd gwaith ymgysylltu penodol ar gyfer pob cynllun.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn dyraniad o £1.5m o Gronfa Effaith Balchder Bro (£750k yn 2025/6 a £750k yn 2026/7). Mae 3 prif amcan ar gyfer y Gronfa Effaith Balchder Bro, sef :

i. Mannau cymunedol: creu, ymestyn, gwella neu adnewyddu cyfleusterau cymunedol presennol a galluogi sefydliadau cymunedol i gymryd rheolaeth neu berchnogaeth o asedau lleol sydd wedi'u tanddefnyddio ond gwerthfawrogi.
ii. Mannau cyhoeddus: gwella'r amgylchedd ffisegol mewn mannau cyhoeddus - mae enghreifftiau o fentrau yn cynnwys mannau gwyrdd neu sgwariau cyhoeddus newydd neu well, gwell chwarae awyr agored, mannau chwaraeon a hamdden, gosod dodrefn stryd, celf gyhoeddus neu ddarganfod ffyrdd.
iii. Adfywio'r stryd fawr a chanol y dref: gwneud yr ardaloedd hyn yn fwy deniadol a chroesawgar lle mae pobl yn ymgynnull ac sy'n annog gweithgarwch economaidd. Enghreifftiau o fentrau y gellid eu hariannu yw gwelliannau blaenau siopau, addasiadau sy'n dod â safleoedd yn ôl i ddefnydd, gwelliannau stryd wedd, celf gyhoeddus, llwybrau a chanfod ffyrdd, a chreu neu wella'r seilwaith ar gyfer marchnadoedd rheolaidd.

| |
|---|
| Mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel y corff atebol ar gyfer y Gronfa, gan weithio hefo rhanddeiliaid lleol er mwyn buddsoddi mewn ymyriadau sy'n diwallu anghenion lleol.<br><br>Mae Fframwaith Adfywio wedi ei datblygu ar gyfer y Sir – sydd yn cynnwys Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch yng Ngwynedd. Mae'r Cynlluniau hyn wedi eu datblygu gan ystyried nodweddion pob ardal, a chynlluniau gweithredu sy'n ceisio ymateb i flaenoriaethau lleol. Hefyd, mae Cynlluniau Canol Tref hefyd wedi eu paratoi ar gyfer Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau a'r Bala.<br><br>Mae tystiolaeth ar gyfer agweddau penodol<br>• Cronfa Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned – cafodd cynllun peilot ei weithredu yn 2025/6 gyda ystod o welliannau lleol wedi eu cwblhau ac mae gwerthusiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd<br>• Cynllun Is-adeiledd a llwybrau trefol – mae cyflwr rhai llwybrau a chysylltiadau trefol wedi dirywio ac mae gwaith yn cael ei wneud gan Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC i lunio pecyn ar gyfer adfer mannau penodol<br>• Rhaglen Adfywio Canol Dinas Bangor – Mae 'r Stryd Fawr yn wynebu cyfnod o newid a heriau, ac mae arolwg eiddo gwag wedi ei gynnal yn ystod 2025.<br>• Cynlluniau Gwella Canol Tref – mae nifer o siopau wedi cau ym Mhwllheli dros y 2 flynedd ddiwethaf, ac arolwg eiddo gwag wedi ei gynnal yn ystod 2025. Mae arolwg yn dangos fod cyflwr Sgwâr Eldon, Dolgellau wedi dirywio, ac angen ei ail-wynebu. Mae toiledau Cambrian Court, Abermaw yn heneiddio ac nid yw'n cwrdd â disgwyliadau modern o ran glendid, hygyrchedd a chynaliadwyedd.<br>• Gwelliannau Llyfrgelloedd – mae Llyfrgell Caernarfon, llyfrgell gyhoeddus brysuraf Gwynedd, yn wynebu angen brys am foderneiddio er mwyn aros yn hygyrch, yn gynaliadwy. Yn yr un modd, mae angen addasu ar uwchraddio gofod llyfrgell Blaenau Ffestiniog er mwyn ei gwneud yn hygyrch a chynaliadwy. |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Bydd angen paratoi cynigion manwl ar gyfer pob cynllun sydd yn derbyn grant drwy'r Gronfa Effaith Balchder Bro. Bydd Asesiad Cydraddoldeb yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun yn unigol |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Anabledd** | Dim | Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| | Positif | Serch hynny, rhagwelir y bydd cynlluniau i wella ansawdd llwybrau, gwelliannau i lyfrgelloedd, toiledau a chyfleusterau lleol yn debygol o wella hygyrchedd safleoedd a cael effaith bositif ar unigolion gyda anableddau. |
| **Rhyw** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Oedran** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| | Positif | Serch hynny, rhagwelir y bydd cynlluniau i wella ansawdd llwybrau, gwelliannau i lyfrgelloedd, toiledau a chyfleusterau lleol yn debygol o wella hygyrchedd safleoedd a cael effaith bositif ar unigolion gyda anableddau. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Dim | Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith. |
| | Positif | Serch hynny, rhagwelir y byddai cynlluniau i wella llwybrau, gwelliannau i lyfrgelloedd, toiledau a chyfleusterau lleol yn debygol o wella hygyrchedd safleoedd a cael effaith bositif. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw,**

**cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | I'w gadarnhau | Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol ran roi sylw penodol ar gyfleoedd i gyfrannu'n bositif at y dyletswydd yma. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | I'w gadarnhau | Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol ran roi sylw penodol ar gyfleoedd i gyfrannu'n bositif at y dyletswydd yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol ran roi sylw penodol ar gyfleoedd i gyfrannu'n bositif at y dyletswydd yma.<br><br>Serch hynny, rhagwelir y bydd y pecyn prosiectau yn cyfrannu at ymdrechion i wella cyfleusterau yn lleol ac yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau a grwpiau lleol. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Bydd asesiad penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol.<br><br>Bydd holl drefniadau cyfathrebu yn gwbl ddwyieithog gyda'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Bydd mesurau a newidiadau pellach yn cael eu hystyried yn dilyn asesiad penodol ar gyfer cynlluniau unigol. |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Mae'r pecyn o gynlluniau arfaethedig wedi lunio er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau o fewn cymunedau lleol.<br><br>Rhagwelir y bydd gwybodaeth bellach yn deillio o Asesiadau Cydraddoldeb sydd i'w datblygu ar gyfer pob cynllun unigol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Rhagwelir y bydd gwybodaeth bellach yn deillio o Asesiadau Cydraddoldeb sydd i'w datblygu ar gyfer pob cynllun unigol. |

**3.7 Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal? (Rhowch grynodeb o'ch darganfyddiadau os ydych wedi ystyried hyn eisoes fel rhan o'r broses sgrinio)**

| |
|---|
| Drwy ymateb i anghenion lleol, mae'r cynigion yn cyfrannu ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfrannu at y dyletswydd datblygiad cynaliadwy drwy hybu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bwriedir gweithredu'r pecyn Cronfa Effaith Balchder Bro fel rhan o'r fframwaith adfywio, gan sicrhau trefniadau ar gyfer cyd-weithio gyda sefydliadau lleol; integreiddio gyda chynlluniau adfywio lleol, bod yn gynhwysol, gyfrannu at waith ataliol cyrff cyhoeddus, ac ymateb i anghenion tymor byr a'r hirdymor. |

**3.8 Er mwyn cydymffurfio gyda deddf Lluoedd Arfog 2022, beth yw effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd, o ran gwasanaethau tai ac addysg?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith.

Serch hynny, rhagwelir y byddai cynlluniau i wella llwybrau, gwelliannau i lyfrgelloedd, toiledau a chyfleusterau lleol yn debygol o wella hygyrchedd safleoedd a cael effaith bositif.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried effaith.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Ie |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid oes effaith penodol wedi ei adnabod ar hyn o bryd. Bydd Asesiad Cydraddoldeb penodol yn cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun unigol gan ystyried unrhyw effeithiau negyddol. Pe byddai effaith negyddol yn cael ei adnabod, bydd mesurau lliniaru posib yn cael ei ystyried.

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

| |
|---|
| Dim yn berthnasol |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd trefniadau ar gyfer rheoli a gweithredu'r Gronfa Effaith Balchder Bro yn cynnwys

- Paratoi Cynlluniau Prosiect unigol
- Paratoi Asesiad Cydraddoldeb llawn ar gyfer pob cynllun
- Paratoi adroddiadau monitro chwarterol
- Gwahodd a derbyn sylwadau ac adborth gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid
- Adroddiad gwerthuso ar ddiwedd y cyfnod yn ystyried gwir effaith